# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

26.06.2023

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 29 Mehefin 2023 am 11.30am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **I gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 aac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r confodion hyny (Tudalennau 3 - 6)**

4. **I dderbyn adroddiad ar hen Ysgol Tregaron - is-grŵp (Tudalennau 7 - 16)**

5. **I dderbyn adroddiad ar Lyfrgell Cei Newydd a'r Ystafell Ddarllen (Tudalennau 17 - 32)**

6. **I dderbyn adroddiad diweddariad ar Neuadd Goffa Cei Newydd 2022-2023 (Tudalennau 33 - 36)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Mercher, 22 Mawrth 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Marc Davies, Endaf Edwards, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Geraint Hughes a Ceris Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol**: Louise Harries, Cyfreithiwr; Chris Macey, Cyfrifydd Gwasanaeth; a Nia Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (cofnodion).

(11.35am - 12.35pm)

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Chris James a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 **Datgelu buddiant personol**
Datgelodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol yng nghyswllt Hen Ysgol Tregaron, rhag ofn y byddai'r hen ysgol yn cael ei thrafod wrth gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

3 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 yn gywir.

**Materion sy'n Codi**
Eitem 5: Dywedodd Louise Harries nad oedd y Crynodeb Blynyddol a oedd yn amlinellu'r defnydd a wneid o Neuadd Goffa Ceinewydd yn 2022/23 wedi dod i law hyd yma. Ychwanegodd y byddai'r swyddogion yn mynd ar drywydd hyn ac mai'r bwriad oedd cyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.
Eitem 6: Dywedodd Louise Harries fod yr ymgynghoriad ynghylch Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd wedi dechrau ac y byddai'n dod i ben ar 7 Mai 2023. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad.
Eitem 7: Dywedodd Louise Harries fod yr ymgynghoriad ynghylch yr elw o werthu'r Hen Ysgol yn Nhregaron wedi dechrau ac y byddai'n dod i ben ar 10 Mai 2023. Byddai cyfarfod o'r is-grŵp yn cael ei gynnal 2-3 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad gau a byddai adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad ac argymhelliad yr is-grŵp yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau cyn gynted ag y bo modd.
Eitem 8: Dywedodd Louise Harries y byddai Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2022-2023 yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

4 **I dderbyn adroddiad ar welliannau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Cyflwynodd Louise Harries y newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor gan nodi bod y cynnig i gynnwys cymal am ddirprwyo pwerau yn deillio o'r wybodaeth yn eitem 6 o'r agenda, a oedd wedi arwain at drafodaeth ynghylch trefniadau llywodraethu mewn amgylchiadau brys.

Ystyriodd yr Aelodau Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau gan nodi'r cynnig y dylai pŵer gael ei ddirprwyo i Gadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, neu i'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd, i benderfynu ynghylch unrhyw faterion a fyddai angen eu hawdurdodi o fewn terfyn amser o 10 diwrnod gwaith. Byddai hyn yn amodol ar y canlynol: Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd yn unig fydd yn arfer y pŵer perthnasol ac ni ellir gwario ar ran yr elusen oni bai ei fod yn ymwneud â gwaith brys ar ased ymddiriedolaeth gan gynnwys gwneud yr ased yn ddiogel neu osgoi niwed i'r cyhoedd neu dir cyfagos ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Roedd y cynnig hefyd yn amlinellu'r weithdrefn ynghylch adrodd penderfyniadau yn ôl i'r Pwyllgor.

Hefyd, gwnaeth yr Aelodau ystyried cynnig i gynnwys manylion y rheoliadau ynghylch datgelu buddiannau yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, fel y'i nodwyd ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai pob Aelod gael ei hysbysu o'r cychwyn cyntaf am unrhyw amgylchiadau lle bo angen i'r Cadeirydd wneud penderfyniad ar frys.

Hefyd, gofynnodd yr Aelodau a fyddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar ôl hynny i ystyried unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cadeirydd. Nodwyd bod yn rhaid cyhoeddi agendâu'r Pwyllgorau o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod ac y byddai penderfyniad y Cadeirydd yn cael ei adrodd yn ôl yng nghyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor, neu gallai'r Cadeirydd benderfynu ddwyn y cyfarfod nesaf ymlaen er mwyn adrodd ynghylch unrhyw benderfyniadau yr oedd wedi'u gwneud.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Bod Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn nodi'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1;
2. Bod Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn argymell bod y Cyngor yn ystyried y newidiadau a wnaed i'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1 sy'n ymwneud â:
   a) Dirprwyo cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr;
   b) Datgan buddiannau.

**5 I dderbyn adroddiad ar Gyfrifon Ariannol 2021-22**

Cyflwynodd Chris Macey yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi mai dyma oedd y tro cyntaf i adroddiad fel hwn gael ei gyflwyno ac y byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu yn y dyfodol. Dywedodd fod gofyniad statudol ar y Cyngor fel Ymddiriedolwr i adrodd i'r Comisiwn Elusennau bob blwyddyn a nododd fod y wybodaeth wedi'i darparu a'i bod yn gyfredol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd llog wedi'i dalu ar y cyfrifon a chadarnhawyd bod y Cyngor yn talu llog a oedd 1% yn llai na chyfradd sylfaenol gyfredol Banc Lloegr. Dywedodd yr Aelodau eu bod am gael mwy o eglurder

ynghylch hyn am fod dyletswydd ar yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod yr arian yn cael ei fuddsoddi'n well. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyllid gan gadarnhau hawliau'r Ymddiriedolwyr o ran y buddsoddiadau a chyflwyno unrhyw argymhellion ynghylch yr opsiynau a oedd ar gael.

Hefyd, gofynnodd yr Aelodau sut oedd y cronfeydd yn cael eu defnyddio ac a oedd modd i'r ysgolion ddefnyddio'r arian yng Nghronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi. Dywedodd y swyddogion fod rhan fwyaf yr arian a oedd yn cael ei gadw yn y cyfrif yn ymwneud â'r arian a gafwyd o werthu'r hen ysgol yn Nhregaron ac o werthu Ysgol Ardwyn. Ychwanegwyd bod y modd y byddai'r arian a gafwyd o werthu Ysgol Tregaron yn cael ei ddefnyddio yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a bod yr arian a gafwyd o werthu Ysgol Ardwyn wedi'i fuddsoddi mewn Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Ysgol Penweddig. Roedd nifer o'r ymddiriedolaethau yn cael eu dal fel cronfeydd gwaddol ac roedd hyn yn golygu i bob pwrpas mai dim ond yr incwm a fyddai'n dod o'r llog yr oedd modd ei wario. Dywedwyd hefyd fod yr arian a oedd yn cael ei gadw yng Nghronfa Goffa Coe yn ymwneud â'r brydles ar Fferm Blaendyffryn.

Nododd yr Aelodau y byddent yn dymuno gweld gwybodaeth fanwl am bob un o'r elusennau a oedd yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth gan gynnwys gwerth yr ased gan nad oedd yn bosibl gwneud penderfyniadau heb gael y manylion llawn. Dywedwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

Yn dilyn trafodaeth, **NODODD** Aelodau'r Pwyllgor gynnwys y cyfrifon.

**6 I dderbyn adroddiad ar gais gan Gyngor Tre Ceinewydd i osod Coeden Nadolig ar dir gerllaw Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd**

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad a oedd yn ymwneud â chais gan Gyngor Tref Ceinewydd am ganiatâd i roi Coeden Nadolig ar dir Llyfrgell Ceinewydd. Roedd y cais ynghyd ag asesiad risg wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion.

Gan fod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn dal y tir hwn mewn ymddiriedolaeth, roedd angen sêl bendith y Pwyllgor ar y Cyngor fel y byddai modd i'r drwydded gael ei rhoi. Oherwydd bod y cais wedi'i gyflwyno'n fyr-rybudd, ni fu'n bosibl trefnu cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, felly gofynnwyd i bob Aelod ar e-bost hysbysu Clerc y Pwyllgor o unrhyw wrthwynebiad a allai fod ganddynt mewn perthynas â'r cais hwn. Ni chafwyd yr un gwrthwynebiad ac felly caniatawyd y cais. Byddai'r newid yn y Cylch Gorchwyl a oedd yn dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd fel hyn yn y dyfodol.

Bu i'r Aelodau argymell y dylai'r Swyddogion roi gwybod i Gyngor Tref Ceinewydd am y broses er mwyn sicrhau bod ceisiadau yn y dyfodol yn dod i law mewn da bryd.

**NODODD** yr Aelodau'r adroddiad.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 29 Mehefin 2023**

**Cadeirydd:_________________**

**Dyddiad:___________________**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Is-grŵp Hen Ysgol Sirol Tregaron** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Derbyn argymhellion yr is-grŵp a phenderfynu ar y camau nesaf** |
| | **Er Penderfyniad** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i'r Pwyllgor ar 26 Medi 2022 benderfynu ynghylch y canlynol:

*- penodi'r Cynghorwyr Rhodri Evans, Gwyn Wigley Evans a Wyn Evans sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'r is-grŵp oherwydd lleoliad eu Wardiau, ac i wahodd y Cynghorydd Endaf Edwards fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu;*

*- gwahodd Pennaeth Ysgol Henry Richard, cynrychiolydd o Gylch Meithrin Tregaron, Y Cynghorydd Ifan Davies (Aelod Lleol), Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron, Swyddog o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog o'r AALl i ymuno â'r is-grwpiau;*

*- y dylai Swyddogion, ar ran yr Ymddiriedolwr, gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad.*

## 2. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

2.1 Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ar 16/03/2023 a barodd am 8 wythnos tan 10/05/2023. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r cyhoedd am awgrymiadau ynghylch sut y dylid gwario arian yr ymddiriedolaeth i ddatblygu addysg plant oed cyn-ysgol a phlant oed ysgol yn Nhregaron. Hefyd, paratowyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad.

2.2 Gwnaeth Swyddfa'r Wasg y Cyngor gefnogi'r ymgynghoriad drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg a rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ar wahanol adegau o'r ymgynghoriad i godi ymwybyddiaeth. Hefyd, cafodd ymgynghoreion penodol yn Nhregaron eu hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi'i lansio ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mudiad Meithrin a'r Cylchoedd Ti a Fi;
- Cyngor Tref Tregaron;
- Clwb Pêl-droed Tregaron;
- Canolfan Deuluol Tregaron;

- Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Yr Aelod Lleol;
- Ysgol Henry Richard (y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu).

2.3 Cafwyd 25 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'r ymatebion llawn (yn yr ieithoedd y daethant i law) i'w gweld yn Atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion ac fe sylwch fod y themâu hyn gan amlaf yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon.

**3. YR IS-GRŴP**

3.1 Ar 23 Mai 2023, cyfarfu pob un o'r aelodau a oedd wedi'u gwahodd i fod yn rhan o'r is-grŵp, ar wahân i'r Aelod Lleol a'r cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant a oedd wedi anfon eu hymddiheuriadau.

3.2 Ystyriodd yr is-grŵp yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan drafod yr opsiynau ar gyfer yr arian dan sylw gan gofio mai diben yr ymddiriedolaeth oedd datblygu addysg plant oed cyn-ysgol a phlant oed ysgol yn Nhregaron. Nododd yr is-grŵp y pwyntiau canlynol:

a) Siom bod nifer yr ymatebion yn isel o ystyried bod cryn ddiddordeb yn lleol.

b) Roedd rhan fwyaf yr ymatebion yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon gan gynnwys caeau 3G a 4G, *Astro-turf* a thrac rhedeg.

c) Roedd Cynlluniau Lle Tregaron dros y 5-6 blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar yr angen am fwy o gyfleusterau chwaraeon.

d) Byddai angen sicrhau nad yw'r arian yn cael ei wario ar bethau y mae rhwymedigaeth yn gyffredinol ar y Cyngor (yn gorfforaethol) i'w hariannu, ond yn hytrach ar gyfleusterau sy'n ehangach na'r rhain.

e) A fyddai modd defnyddio'r arian fel arian cyfalaf tuag at brosiect ehangach? e.e. yr arian grant o £300,000 sydd ar gael oddi wrth Chwaraeon Cymru.

f) Roedd Ysgol Henry Richard wedi ystyried *Astro-turf* a chyfleusterau 3G / 4G yn y gorffennol ac roedd yr ysgol wedi cael gwybod y byddai'r costau oddeutu £500,000.

g) Byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r math o gyfleusterau a ddarperir, o gofio y gellid sicrhau arian cyfatebol ar gyfer caeau 3G a 4G oddi wrth Gymdeithas Bêl-droed Cymru, a fyddai'n addas ar gyfer pêl-droed a rygbi os gosodir padiau atal sioc o dan wyneb y caeau. Gellid eu defnyddio hefyd ar gyfer sesiynau hyfforddi hoci ond byddai angen *Astro-turf* ar gyfer gemau hoci cystadleuol.

h) Nid oes trac rhedeg ffurfiol yng Ngheredigion a gallai sefydlu trac ddenu refeniw i gynnal a chadw'r cyfleusterau os byddai'n cael ei logi i bobl o ardaloedd eraill.

i) Byddai angen i leoliad unrhyw gyfleusterau chwaraeon fod yn hygyrch i'r ysgol a'r gymuned fel y gellid annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon a phawb i fyw bywydau iachach.

j) A fyddai modd defnyddio'r tir sy'n rhan o Ysgol Henry Richard ar hyn o bryd i osod cyfleusterau chwaraeon awyr agored?

k) Efallai y byddai angen i Ysgol Henry Richard ystyried ad-drefnu eu cyfleusterau chwaraeon presennol er mwyn caniatáu lle ar gyfer unrhyw gyfleusterau chwaraeon ychwanegol a gallai fod goblygiadau ariannol i hyn.

l) Byddai angen ystyried pwy fyddai'n gwneud y cais am arian grant a phwy fyddai'n rheoli'r cyfleusterau ac yn eu cynnal a'u cadw.

m) Byddai angen ystyried unrhyw effaith bosibl ar y Ganolfan Chwaraeon a phwysigrwydd cynnwys y Ganolfan Chwaraeon mewn unrhyw drafodaethau am ddatblygiadau posibl a'u cyfranogiad yn y dyfodol.

n) Byddai angen sefydlu tîm prosiect i ystyried y materion hyn ymhellach gan gynnwys arbenigedd oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ynghylch materion sy'n gysylltiedig ag arian cyfatebol a chyfleusterau chwaraeon ynghyd â chynnwys Is-grŵp Tregaron fel y gellid archwilio cyfleoedd am gyllid ychwanegol a allai fod ar gael megis grant Melinau Gwynt Pont-rhyd-y-groes.

o) Byddai angen cynnal trafodaethau â busnesau lleol ynghylch y gwaith datblygu megis gwaith ar y tir.

p) A fyddai modd defnyddio'r arian ar gyfer costau cyfalaf neu gostau refeniw neu gyfuniad o'r ddau?

q) Roedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi nodi bod adeilad ac adnoddau newydd wedi'u darparu'n ddiweddar ac mai eu prif ffocws fyddai'r costau rhedeg;

r) Gellid ystyried Cynllun B, os na fyddai Cynllun A yn llwyddo a gallai hyn gynnwys cefnogi nifer o brosiectau llai o faint;

s) Roedd angen sicrhau na fyddai'r Astudiaethau Dichonolrwydd yn llyncu'r cyllid, ac roedd angen sicrhau bod rhagor o arian grant yn cael ei ganfod os byddai angen.

3.3 Ar ôl trafodaeth, bu i'r is-grŵp argymell i'r Pwyllgor y dylid ystyried defnyddio'r arian tuag at ddatblygu cyfleusterau chwaraeon yn Nhregaron gan ddirprwyo awdurdod i'r swyddogion i drafod yr opsiynau gyda swyddogion yn y Gwasanaethau Hamdden ac Addysg, sy'n ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael o ran arian grant, ynghyd â chynrychiolwyr yr is-grŵp.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **1. Nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac argymhelliad yr Is-grŵp;** |

2. **Bod swyddogion, ar ran yr Ymddiriedolwyr, yn pennu swyddogion priodol yn y Gwasanaethau Addysg a Hamdden i drafod yr opsiynau ynghylch arian grant ar gyfer cyfleusterau chwaraeon;**

3. **Bod yr is-grŵp, sy'n cynnwys y swyddogion a nodir yn argymhelliad 2 uchod ac aelodau presennol yr is-grŵp, yn cwrdd i drafod yr opsiynau ariannu hynny ymhellach gan wneud argymhellion i'r Pwyllgor.**

| | |
|---|---|
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn hyrwyddo amcanion yr ymddiriedolaeth elusennol** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 – Ymatebion llawn i'r ymgynghoriad cyhoeddus (yn yr iaith y daethant i law).**<br><br>**Atodiad 2 – Crynodeb o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Louise Harries – Cyfreithiwr** |
| **Dyddiad:** | **31/05/2023** |

# ATODIAD 1/ APPENDIX 1

| Rhif /No. | Rhowch eich awgrymiadau ynghylch sut y dylid gwario arian yr ymddiriedolaeth i ddatblygu addysg plant oed cyn-ysgol a phlant oed ysgol yn Nhregaron / Please give us your suggestions as to how the trust money should be spent to advance the education of pre-school and school-age children in Tregaron |
|---|---|
| 1 | Money should be used to improve sports facilities in the area. A suitable astro turff and running track should be a priority |
| 2 | The Cylch meithrin are always looking for funding to help run the sessions for the children, having extra funding would mean a breakfast club or afternoon club would be able to run which would help parents with work and childcare issues.<br><br>The Family centre and Cylch ti a fi cywion caron are also completely solely dependant on fundraising and grants. The sessions are run to help babies, young children to spend time with other children their age and to help with preparing for school.<br><br>Ysgol henry richards need books for the new library which will help establish the children’s reading. |
| 3 | A multi purpose building that could be used as a local youth club as there currently isn’t one close. This would provide activities and a safe place for young people to socialise and be apart of the community outside of school hours and then for it to be used as a holiday club for younger children. As there is no local nursery that provides a holiday club to ensure children and young people have options throughout the long holidays to been seen, to join in and still keep active and socialise. Many young people and children find it difficult to socialise after the covid lockdown and providing safe spaces for this would benefit the whole town. |
| 4 | - The new childcare policy in Wales will see Children as young as 12 months being eligible for 30 hours free childcare, at the moment the local Cylch which is at capacity already. The money would be good to use as a private nursery from 12 months of age and also a daycare/ club for parents to use in the school holidays for all children. Very similar set up as Seren Meithrin in Lampeter. More childcare facilities will definatly be needed in 2024 as more parents will be able to return to work.<br>- Additionally this set up could be used for after school youth clubs depending on the age of the child. i.e. over 8's on a Monday. On Thursday evenings there is the Urdd - What about other activity on certain evenings by using the local sports club?<br>- During the school holidays what about educational trips for children? This could be utalised by using the private nursery/ after school/ holiday club.<br><br>This idea would really ADD to families especially working families in the area |
| 5 | Mae angen datblygu cae chwaraeon yr Ysgol,nid oes maes 3G/4G na thrac rhedeg ar gael i’r plant. |
| 6 | Cae 3g gyda trac rhedeg a chyfarpar athletau |
| 7 | Breakfast and after school clubs |
| 8 | Resurface all roads within 6 miles of Tregaron. Paint all houses and buildings in Tregaron as it looks like Chernobyl these days. Run down and depressing |
| 9 | “Business/careers and adult life support”<br>A hub for learning about banking and bills, cleaning, basic DIY, basic gardening, caring for pets, mental health, cooking and many more life essentials. Could also be used for careers fairs, finding weekend work during school holidays, CV workshops. A place where kids can learn how to be well-rounded adults 👍 |
| 10 | Swimming pool |
| 11 | A community hub providing spaces for the elderly , youth clubs, mother and baby groups . A space with an allotment for the community to come together and help teach and learn about growing. Healthy eating etc.... |

| | |
|---|---|
| 12 | 50,000 towards setting the school library properly at Ysgol Henry Richard with new books, Library management system.<br><br>10,000 Cylch Meithrin Tregaron<br><br>5000 Cylch TI a Fi<br><br>5000 Tregaron Family Center<br><br>10000 Tregaron Leisure Center<br><br>5000 Tregaron Young Farmers<br><br>5000 Urdd Ceredigion<br><br>5000 Turfs Tregaron junior Teams<br><br>5000 Tregaron Rygbi club to set up a youth team |
| 13 | Pwll nofio<br>Cae chwarae 3g maint llawn |
| 14 | I would like the money be used towards an all weather sport pitch in Tregaron (Astro turf / 3G pitch) - this would be of great benefit for the children and young people of the area and will allow them to have more sporting opportunities, have more experiences and have first class facilities locally. Currently a number of children, young people and sport teams have to travel to use such facilities to Lampeter and further afield, so by having this facility on their doorstep it will allow more children and young people the chance to participate and experience different sports, making it more inclusive. |
| 15 | Mae yna ysgol Feithryn newydd yn Nhregaron ac Ysgol Gynradd sydd hefyd yn weddol newydd hoffem weld yr ymddiriedolaeth yn cylludo rhiwbeth i't oedran Uwchradd, Fel Cae chwarae 3g gyda trac rhedeg o'i gwmpas. |
| 16 | Pwll nofio newydd. Gan fod y plant yr ardal nawr yn gorfod mynd i Aberystwyth er mwyn cael gwersi nofio. Mae dysgu nofio yn bwysig iawn |
| 17 | Gallen ni rhoi yr Arian na i cael grants erill i Pell nofio nol yn Tregaron, neu full size all weather pitch! 3G 4G |
| 18 | Cyfle unterai chwaraeon. Mi fydde 4g maint llawn yn gret i'r ardal ac i'r sir. Does dim trac rhedeg yng Ngheredigion |
| 19 | Datblygu cyfleusterau chwaraeon. Mi fyddai cae chwarae aml-bwrpas maint llawn yn ddelfrydol ond mi fyddai penderfynnu ar astro neu 4g yn ddadleuol iawn. Mae yn alw mawr am drac rhedeg bob tywydd yn Ngheredigion - mi fyddai hwn yn fuddsoddiad da i Dregaron ar Sir yn enwedig gan fod digon o dir gan yr ysgol/cyngor yn Nhregaron. |
| 20 | Adeiladu pwll nofio newydd yn lle'r un oedd yma yn flaenorol. Mae llawer o blant yn colli allan ar ddysgu sut i nofio oherwydd prinder lleoedd yn yr ardal. |
| 21 | Pwll Nofio a ailwampio ganolfan hamdden<br>(mae'n rhaid i ni teithio 20munud oleiaf ir pwll agosaf)<br>Clybiau i plant o bob oedran (e.e Clwb a'r ol ysgol) |
| 22 | Develop sporting provision |
| 23 | Athletic/ 3g sports facility |

| | |
|---|---|
| 24 | Credaf y dylai Ysgol Henry Richard fod yn hwb dysgu Cymraeg ar gyfer Ceredigion, ysgol ymhle mae'r adnoddau ar gael i roi'r Gymraeg ar dafod pob disgybl.<br><br>Dylai'r arian o werthiant yr hen ysgol gael ei ddefnyddio ar gyfer creu hwb trochi addysg Gymraeg i hwyrddyfodiaid yn Nhregaron a'r sir gyfan.<br>Ar hyn o bryd, mae yna ddiffyg cyfleoedd i hwyrddyfodiaid ddysgu Cymraeg yng Ngheredigion yn y sector uwchradd.<br>Mae'r fath gyfleusterau ar gael o fewn y sir ar gyfer disgyblion iau; yn Felinfach i ddisgyblion cynradd ac yn ysgol Bro Teifi ar gyfer disgyblion hyd at flwyddyn 8 - ac maent hwy yn llwyddiannus yn addysgu'r iaith i blant di-Gymraeg, er mwyn iddyn nhw allu ymuno ag ysgol Gymraeg.<br>Er hynny nid oes y fath gyfleusterau ar gael i ddisgyblion uwchradd o flwyddyn 8 i fyny yng Ngheredigion. Byddai sefydlu'r fath wasanaeth efo'r arian yn golygu bod gan bob disgybl yng Ngheredigion fynediad at yr iaith Gymraeg, iaith fydd nid yn unig yn fuddiol yn gymdeithasol ond hefyd o fudd ym myd addysg a gyrfa.<br>Gallai ysgol Henry Richard fod yn hwb dysgu Cymraeg i'r sir gyfan, mae hyn yn weithred angenrheidiol ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg, ac yn y pen draw siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg yn y dyfodol. |
| 25 | Tregaron desperately needs an all weather sports area where young people especially can take part in a range of sporting activities all year round. It would be a very popular and highly used facility which would provide an opportunity for users to take part in physical activity all year round but in particular during the dark winter months when people are less active and their wellbeing is impacted. Over the years people in this area have been disadvantaged by a lack of all year round facilities and have often been put off taking part in sport by the distance they've had to travel. This clearly has had a negative effect on our young, talented sportsmen and women who almost always have to compete against better prepared individuals. This inequality develops an inferiority complex in our youngsters and I feel a facility like this would allow for better coaching and playing opportunities, which in turn would bring success and a feeling of pride to our area. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

ATODIAD 2

| Themau'r Prif Ymatebion | Nifer yr ymatebion sy'n cyfeirio at y thema |
|---|---|
| Cyfleusterau chwaraeon hy: maes astro turf/trac rhedeg / cae 3G neu 4G | 12 |
| Arian i'r Cylch Meithrin (clwb brecwast/clwb prynhawn)/ Canolfan Deulu Cylch ti a fi cywion. | 2 |
| Adeilad amlbwrpas ar gyfer clybiau ieuenctid lleol/gweithgareddau/clybiau gwyliau yn helpu i gymdeithasu a darparu lle diogel | 1 |
| Meithrinfa breifat hefyd gofal dydd/clwb yn ystod gwyliau ysgol teithiau addysgol l i blant. | 1 |
| Clybiau ysgol - Brecwast ac ar ôl ysgol | 3 |
| Ail-wynebu ffyrdd o fewn 6 milltir i Dregaron. Peintio bob tŷ yn Nhregaron. | 1 |
| Hwb ar gyfer sgiliau bywyd a rhandiroedd h.y.: bancio a biliau, glanhau, DIY sylfaenol, garddio sylfaenol, gofalu am anifeiliaid anwes, iechyd meddwl, coginio, ffeiriau gyrfaoedd, dod o hyd i waith penwythnos yn ystod gwyliau'r ysgol, gweithdy CV. | 2 |
| Pwll nofio. | 6 |
| 50,000 tuag at osod llyfrgell yr ysgol yn iawn yn Ysgol Henry Richard gyda llyfrau newydd, system rheoli llyfrgelloedd. 10,000 Cylch Meithrin Tregaron. 5000 Cylch TI a Fi. 5000 Canolfan Deuluol Tregaron. 10000 Canolfan Hamdden Tregaron. 5000 i Ffermwyr Ifanc Tregaron. 5000 Urdd Ceredigion. 5000 i dimau iau Turfs Tregaron. 5000 i'r Clwb Rygbi Tregaron i sefydlu tîm ieuenctid. | 1 |
| Hwb yn Ysgol Henry Richard i blant oed ysgol uwchradd ddysgu Cymraeg | 1 |
| Ysgol Henry Richard - llyfrau ar gyfer llyfrgell newydd | 2 |



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

**Dyddiad y cyfarfod:** **29 Mehefin 2023**

**Teitl:** **Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Derbyn yr adborth i'r ymgynghoriad a'r argymhellion ynghylch y camau nesaf**

**Er penderfyniad**

### 1. CEFNDIR

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i'r Pwyllgor ar 26 Medi 2022 benderfynu ynghylch y canlynol:

- bod achlysur cy-pres wedi codi dan s.62(1)(e)(i) o Ddeddf Elusennau 2011;

- *cynnig, yn amodol ar ymgynghoriad, mai diben newydd yr ymddiriedolaeth i'w gynnig i'r Comisiwn Elusennau yw datblygu addysg trigolion Ceinewydd';*

- *penderfynu bod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn cynnal ymarfer ymgynghori fel y nodir ym mharagraffau 5.4-5.6 o'r adroddiad hwn gan gynnwys cyfnod ymgynghori a fydd yn hwy na 6 wythnos. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu dwyn yn ôl i'w hystyried gan y Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau.*

### 2. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

2.1 Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y Cyngor ar 27/02/2023 a barodd am 10 wythnos tan 07/05/2023. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r cyhoedd a oeddent yn cytuno â diben newydd arfaethedig yr ymddiriedolaeth sef 'datblygu addysg trigolion Ceinewydd'. Os nad oeddent yn cytuno, gofynnwyd iddynt nodi pa ddiben arall y byddent yn ei gynnig ac at beth y dylai asedau'r ymddiriedolaeth gael eu defnyddio er mwyn cyflawni'r diben arall hwn.

2.2 Gwnaeth Swyddfa'r Wasg y Cyngor gefnogi'r ymgynghoriad drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg (a oedd yn cynnwys y Cynghorydd lleol) a rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ar wahanol adegau o'r ymgynghoriad i godi ymwybyddiaeth. Hefyd, cafodd ymgyngoreion penodol yng Ngheinewydd eu hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi'i lansio ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Y Cylch Meithrin;
- Cyngor Tref Ceinewydd;

- Ysgol Gynradd Ceinewydd
- Clwb Pêl-droed Ceinewydd;
- Neuadd Goffa Cei Newydd;
- Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd;
- Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.3 Yn garedig iawn, gosododd Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd bosteri ynglŷn â'r ymgynghoriad yn y Llyfrgell ac yn Neuadd Goffa Ceinewydd ynghyd â chaniatáu i fersiynau papur o'r ymgynghoriad gael eu cadw yn y llyfrgell rhag ofn y byddai defnyddwyr y llyfrgell yn dymuno llanw copïau caled.

2.4 Cafwyd 32 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad (28 ar-lein a 4 ar bapur) ynghyd â 9 sylw o dan bostiad Facebook y Cyngor ynglŷn â'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ffurfiol, yn yr iaith y daethant i law i'w gweld yn Atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion ynghyd â'r themâu hynny a nodir yn y sylwadau Facebook.

2.5 Fel y gwelwch o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd dwy ran o dair (heb gynnwys y ddau na atebodd y cwestiwn hwn) â'r cynnig i newid diben yr ymddiriedolaeth i'r canlynol: 'datblygu addysg trigolion Ceinewydd''. O ganlyniad i hyn, gall yr ymddiriedolaeth ystyried penderfynu gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau i newid diben yr ymddiriedolaeth ond argymhellir na ddylid gwneud hyn hyd nes y bydd y defnydd y bwriedir ei wneud o asedau'r ymddiriedolaeth yn gliriach oherwydd mae'n bosib y bydd angen caniatâd y Comisiwn ar gyfer hynny hefyd ac felly gellid cyflwyno hyn oll mewn un cais.

2.6 O ran y cwestiwn ynghylch yr hyn y dylid ei wneud ag asedau'r ymddiriedolaeth i hyrwyddo'r diben newydd, fe sylwch fod nifer o themâu wedi'u cyflwyno ond nid oedd un thema benodol wedi dod i'r amlwg. Mae angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol y bydd angen i unrhyw ddefnydd a wneir yn y dyfodol gyd-fynd â'r diben addysgol felly mae'n annhebygol y byddai defnyddio'r safle fel lle parcio, caffi rhyngrwyd, tai cymdeithasol, canolfan groeso ac ati, yn addas.

2.7 Fodd bynnag, mae'n glir o'r ymgynghoriad bod y cyhoedd yn dymuno i'r safle gael ei ddefnyddio gan mai dim ond un person (drwy sylw ar Facebook) a awgrymodd y dylid gwerthu'r safle.

**3. Y CAMAU NESAF**

3.1 Wrth ystyried a ydy'r safle yn addas i'r cyhoedd ei ddefnyddio yn y dyfodol, cynhaliodd y Gwasanaethau Eiddo archwiliad o gyflwr y safle ac mae'r adroddiad i'w weld yn Atodiad 3.

3.2 Yn dilyn sylwadau'r Gwasanaethau Eiddo am y coed ar y safle, mae'r Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd wedi bod allan i gael golwg ar y coed ac ymddengys fel petaent mewn cyflwr da. Nid oes arwyddion amlwg o unrhyw broblemau neu ddifrod i'r eiddo cyfagos ond efallai y byddai tocio'r brigau/coed yn rhywbeth i'w ystyried yn y blynyddoedd nesaf yn ddibynnol ar fwriad yr ymddiriedolaeth ar gyfer y safle yn yr hirdymor.

3.3 Hefyd, mae'r gât i'r eiddo bellach wedi'i chloi a'r bwriad yw gorchuddio'r hen arwydd oedd yn dangos oriau agor y llyfrgell. Ar ôl siarad â Chyngor Tref Ceinewydd ynglŷn â'u hysbysfwrdd, ymddengys bod yr hysbysfwrdd yn un eithaf hen ac na fydd yn cael ei ddefnyddio mwyach gan fod y gât bellach wedi'i chloi.

3.4 Fel y gwelwch yn y casgliad sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad am gyflwr y safle, nid yw'r adeilad bellach yn addas i'w ddefnyddio a byddai angen buddsoddiad sylweddol i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Awgrymir mai'r ateb gorau yn ariannol fyddai dymchwel yr adeilad a datblygu ar y tir moel.

3.5 Ar hyn o bryd, mae gan yr ymddiriedolaeth hon £1,015.84. Ar ôl cael trafodaeth â'r Adran Gyllid, dywedwyd bod yna gost ar gyfer datgysylltu'r trydan ar y safle yn ddiweddar a bod y Cyngor wrthi'n ail-godi tâl ar yr ymddiriedolaeth am y trydan a ddefnyddiwyd ers i'r eiddo fod yn wag ar 1 Tachwedd 2021 felly mae'n bosib y bydd y swm hwn wedi'i gymryd yn dilyn y broses ail-godi tâl. Bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad am hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor pan mai'r gobaith yw y bydd sylw wedi'i roi i'r broses o ail-godi tâl.

3.6 Serch hynny, ni fyddai £1,015.84 yn ddigon o arian ar gyfer gwneud y gwaith dymchwel a/neu ailddatblygu'r safle ac felly er mwyn symud ymlaen, awgrymir bod y Pwyllgor yn ystyried gofyn i gymuned Ceinewydd a fyddai gan grŵp o unigolion neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â'r safle at ddiben addysgol (naill ai un a gynigiwyd fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad neu un arall) a cheisio am arian grant i ariannu'r defnydd hwnnw yn ôl yr angen. Fel y digwyddodd yn achos Neuadd Goffa Ceinewydd, mae'n debygol iawn y byddai'r corff sy'n dyfarnu'r grant yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r grŵp/sefydliad ymgymryd â phrydles y safle, rhywbeth y byddai angen caniatâd y Comisiwn Elusennau ar ei gyfer, ond mae'r cam hwn yn bwysig fel y cam cyntaf i ganfod a oes diddordeb yn y gymuned i ymgymryd â'r safle am nad oes gan yr ymddiriedolaeth yr arian i ddymchwel/ailddatblygu.

3.7 Os nad oes awydd yn y gymuned i ymgymryd â'r rôl honno, yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd pan ddeliodd y Pwyllgor hwn ag ymddiriedolaeth hen Ysgol Tregaron lle'r oedd y gymuned yn dymuno defnyddio'r safle ond lle nad oedd yr un grŵp yn barod i ymgymryd ag ef, efallai y bydd angen i'r ymddiriedolaeth ystyried ai'r opsiwn gorau fyddai gofyn am ganiatâd y Comisiwn Elusennau i werthu'r safle a defnyddio'r elw o'r gwerthiant at ddibenion elusennol.

**Argymhellion:**

1. **Nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus;**

2. **Cyhoeddi datganiad i'r wasg a chysylltu'n uniongyrchol ag ymgyngoreion penodol (yn debyg i'r rheiny y cyfeirir atynt ym Mharagraff 2.2. yn yr adroddiad hwn) i ofyn i drigolion Ceinewydd a fyddai gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â safle'r ymddiriedolaeth at ddibenion addysgol a cheisio arian grant at y diben hwnnw. Bydd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion un mis ar ôl cyhoeddi'r datganiad i'r wasg / cysylltu â'r**

ymgyngoreion. Bydd adroddiad yn mynd gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn hyrwyddo amcanion yr ymddiriedolaeth elusennol** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 – Ymatebion llawn i'r ymgynghoriad cyhoeddus (yn yr iaith y daethant i law).**<br><br>**Atodiad 2 – Crynodeb o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.**<br><br>**Atodiad 3 – Adroddiad y Gwasanaethau Eiddo ar ôl archwilio'r safle** |
| **Pennaeth y Gwasanaethau:** | **Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Louise Harries – Cyfreithiwr** |
| **Dyddiad:** | **06/06/2023** |

## ATODIAD 1 - APPENDIX 1 - FULL RESPONSES

| Rhif / No. | 1A. A ydych chi’n cytuno mai ‘datblygu addysg trigolion Ceinewydd’ ddylai diben newydd Ymddiriedolaeth Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd fod? / 1A. Do you agree that the new purpose of the New Quay Library and Reading Room trust should be ‘the advancement of education of the inhabitants of New Quay’? | 1B. Os mai ‘ydw’ yw’ch ateb, symudwch ymlaen i gwestiwn 2. Os mai ‘nac ydw’ yw’ch ateb, nodwch beth ddylai diben newydd yr ymddiriedolaeth fod. / 1B. If you answered ‘yes’ please move on to question 2. If you answered ‘no’, please state what new purpose you believe the trust should have. | 2. At beth y dylai asedau’r ymddiriedolaeth (sef yr eiddo yn Sgwâr Uplands ac unrhyw arian sy’n cael ei ddal gan yr ymddiriedolaeth) gael eu defnyddio yn y dyfodol er mwyn cyflawni’r diben newydd a gynigir yng nghwestiwn 1 uchod? / 2. What use would you suggest the trust assets (being the property at Uplands Square and any cash held on account) be put towards in the future to achieve the new purpose proposed in question 1 above? |
|---|---|---|---|
| 1 | Yes | | Adult education. As there's no longer a centre for adult education in Aberaeron, so there is no adult education base mid county and for the immediate benefits of the inhabitants of New Quay. |
| 2 | Yes | | A museum. The current one is very well located near the harbourmasters office but it is very small. A new museum or exhibition space/archive could be run by volunteers and be a site where history exhibitions and the like could be shown where the current museum just doesn't have that room enough. It could attract donated items such as local photography and other objects that local people could donate to. These could be curated by Peoples Collection Wales. I'm sure there's loads of maritime history locally that could be used. |
| 3 | Yes | | Perhaps an expressive arts space (art, music, performance, media). For example: I like the way that the Guildhall in Cardigan is used, with various 'pop-up' arts events happening throughout the year. It's a good way to create opportunities for local artists to showcase and talk about their work, and maintains interest because it is not static. There are currently no such spaces in New Quay. There is also plenty of documented research which demonstrates that the expressive arts promote good mental health and well-being, and are therefore valuable within community settings. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | No | Should be a place where the young people can rest and relax. | Bay some board games and snooker pool some chairs and tables to provided chill atmosphere for under 18. |
| 5 | Yes | | Creu amgueddfa ar hanes a datblygiad Cei Newydd. |
| 6 | Yes | | Create a bookable hot desking/workspace with WiFi for residents of new quay of all ages. |
| 7 | Yes | | Buy resorces |
| 8 | Yes | | Delivery of courses perhaps on local history, first aid, defibrillator operation, care of wildlife, recycling<br>The site of the property would be a good place for a much needed car park |
| 9 | No | For the enhancement of health and well-being of the residents of New Quay by creating a community garden for New Quay Primary School and residents to use.<br><br>I would love to lead such a project in New Quay - involving the local teenagers in designing and developing the space. | To found the development of the site |
| 10 | Yes | | A museum showcasing the history of New Quay. Photographs, historical items on display & old films etc. it could also double as a meeting space for local groups. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | No | Considering the state of the building inside /outside, no water, no toilet, cracks in the floor. I thi k it should be knocked down and used a communial picnic area or rebuilt larger where maybe NQ Museum could move here. | Be handed to. NQTC 2 redevelop of picnic area. |
| 12 | Yes | | Addasu a chynnal adeilad i ddarparu'r gwasanaeth i drigolion Casnewydd, prynu adnoddau a gwasanaethau addas a chyflogi unigolion cymwys i gynnal a datblygu'r gwaith. |
| 13 | Yes | | Community garden. Link with New Quay school. Community offer sessions in gardening, pickling, preserving food, local foraging. |
| 14 | No | It should become, a tourist and town and historic information centre. With showering facilities in the back, ideal for those tourists returning back to their cars. | Invest towards question 2 |
| 15 | No | Something fun for children of Ceredigion to do | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16 | Yes | | | I think that it should be used as an education skills centre for secondary students. I work at Aberaeron Secondary school and opportunities for work experience for students is virtually non-existant. I would have students decorating and doing general maintenance jobs and make it into a book coffee shop where students can learn retail, catering, barrista. accounting and maintenace skills.  If there was room for parking we could do a car wash and get students working and learning real life skills. It.would work for so many students. I work in a life skills unit and so many students thrive in practical learning. Students could get work qualifications in Food Hygiene, Health and Safety, First Aid (I am a First Aid Instructor and I know from personal experience how much students gain in confidence from being on my courses). Any profit could be put into school funding or local charities. Students could run primary school Healthy Eating eventss, make fruit platters that appeal to younger students. This would be amazing to get students ambitious and confident in the workplace. It could be made to be totally inclusive to all students of any ability. |
| 17 | Yes | | | Community hub reading writing computers |
| 18 | Yes | | | Delivery of Welsh lessons |
| 19 | Yes | | | The creation of a hotdesking facility that can be hired by individuals on an hourly, daily, weekly, monthly basis. Leeds facilities can also be used for computer literacy courses, additional SEN sessions, community groups etc. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20 | Yes | | | The unit should be turned in to a “hot seat office” where by people working from home that want to get away from the house can do so at a cost through an app. All profits can then go back into the New Quay town council to fund additional projects and ideas in the town. |
| 21 | No | | youth center / drop in center for children / teens | youth center / drop in |
| 22 | Yes | | | Youth center |
| 23 | No | | A day centre for the elderly in the community and surrounding area | |
| 24 | Yes | | | Ideal for a "Men's Shed"..... unique and positive place to share, talk and create together, perhaps to revitalise key skills making old into new working items and learning new skills too... workable instruments and making good results for reusable day to day tools that may have been disguarded. Lots of Sheds in UK making a positive difference to Men's Mental Health. Guys, you could be a huge part of just making your skills work, and work with people with similar skills 👍 No harm in trying, like minded people, fixing and making a difference 😊..... your thing!!!! |
| 25 | Yes | | | Cooperative gallery and artists studio |
| 26 | No | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | No | Social connection for the inhabitants of New Quay and nearby villages | Creation of a social space for resitting meet informally, local trades and small businesses can engage and promote as well as community groups for all generations to meet |
| 28 | Yes | | Alcohol free Youth Club |
| 29 (paper response) | "Not properly phrased where are D/K etc" | | |
| 30 (paper reponse) | No | New Quay is in dire need of a tourist information centre. This would be an ideal location, or an internet café (community led), or social housing | The area outside could be landscaped with tubs of flowers and benches for pepole to sit on |
| 31 (paper response) | | | Tourist office |
| 32 (paper response) | Yes | | Tourist information centre - much needed |

| A ydych chi’n cytuno mai ‘datblygu addysg trigolion Ceinewydd’ ddylai diben newydd Ymddiriedolaeth Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd fod? | Nifer (cafwyd 32 o ymatebion) |
|---|---|
| Ydw | 20 |
| Nac ydw | 10 |
| Heb ateb | 2 |

| O ran y rheiny na wnaeth gytuno â'r diben newydd, roedd prif themâu eu hatebion ynghylch diben arall a defnyddio asedau'r ymddiriedolaeth fel a ganlyn: | Nifer yr ymatebion a oedd yn sôn am y thema hon |
|---|---|
| Lle i'r ifanc orffwyso ac ymlacio | 2 |
| Gardd gymunedol i wella iechyd a llesiant | 1 |
| Man picnic cymunedol | 1 |
| Amgueddfa Ceinewydd | 1 |
| Canolfan groeso / hanes i'r dref gan gynnwys cyfleusterau a fyddai'n caniatáu i dwristiaid gael cawod | 1 |
| Rhywbeth i'r plant allu gwneud | 1 |
| Canolfan ddydd i'r henoed | 1 |
| Man cymdeithasol | 1 |
| Caffi rhyngrwyd | 1 |
| Tai cymdeithasol | 1 |

| O ran y rheiny a wnaeth gytuno â'r diben addysgol newydd, roedd y prif themâu a gyflwynwyd i ddefnyddio asedau'r ymddiriedolaeth at y diben hwnnw fel a ganlyn: | Nifer yr ymatebion a oedd yn sôn am y thema hon |
|---|---|
| Addysg i oedolion | 1 |
| Amgueddfa | 3 |
| Man ar gyfer y celfyddydau mynegiannol / Man ar gyfer arddangosfeydd | 3 |
| Man ar gyfer desgiau poeth | 3 |
| Lle i barcio ceir | 1 |
| Darparu cyrsiau | 2 |
| Man cyfarfod ar gyfer grwpiau lleol | 2 |
| Gardd gymunedol | 1 |

| | |
|---|---|
| Canolfan sgiliau addysg ymarferol i ddisgyblion uwchradd | 1 |
| Hwb cymunedol | 1 |
| Darparu gwersi Cymraeg | 1 |
| Canolfan Ieuenctid | 2 |
| Sied Dynion | 1 |
| Canolfan Groeso | 2 |

| **Y themâu a godwyd yn yr adran Sylwadau o dan bostiad Facebook y Cyngor am yr ymgynghoriad** |
|---|
| Lle i barcio ceir |
| Sied Dynion |
| Hwb Cymunedol |
| Cyfleuster desgiau poeth i bobl sy'n gweithio gartref yn ystod y dydd, lle ar gyfer cyrsiau cyfrifiadurol gyda'r hwyr |
| Gwerthu'r eiddo a defnyddio'r arian i ddatblygu'r Neuadd Goffa |

**Yr Hen Lyfrgell yng Ngheinewydd**

Yn dilyn cyfarfod yn ddiweddar rhwng swyddogion y Cyngor ynghylch adeiladau sy'n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth, gofynnwyd i'r gwasanaethau eiddo ymweld â'r eiddo gwag a arferai gael ei ddefnyddio fel Llyfrgell Ceinewydd. Ymwelwyd â'r eiddo i gael dealltwriaeth o'i gyflwr a'r potensial ar gyfer defnyddio'r adeilad/safle yn y dyfodol.

**Y Safle**
Mae'r safle wedi'i leoli ger y B4342 a cheir cyfleoedd i barcio sydd wedi'u cyfyngu gan amser y tu allan i'r safle. Hefyd, mae siop i'r chwith i'r safle a gorsaf dân y tu ôl iddo. Mae modd cael mynediad i'r safle drwy'r gât sydd ddim yn cloi ac ar y llwybr sydd ar oleddf. Mae'r llwybr yn fwy serth na'r hyn y mae'r safonau yn ei ganiatáu. Nid yw'r mynediad hwn yn debygol o fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 nac ychwaith Dogfen Gymeradwy M, y Rheoliadau Adeiladu oni bai y gwneir buddsoddiad sylweddol.



Mae dwy goeden aeddfed yn peri pryder i'r siop gyfagos ac mae ganddynt y potensial i achosi difrod i naill ai adeilad yr hen lyfrgell neu'r siop, er bod y coed yn ymddangos fel petaent yn iach.

Hefyd, mae hysbysfwrdd Cyngor y Dref ac arwydd oriau agor y llyfrgell i'w gweld ar ochr y ffordd. Mae'r ddau arwydd yn gwahodd pobl i ddod ar y safle ac mae hyn yn ychwanegu at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r eiddo gwag. Mae angen ystyried cael gwared ar y rhain, yn enwedig yr arwydd sy'n nodi oriau agor y llyfrgell.







**Yr Adeilad**
Mae sylfaen yr adeilad wedi'i wneud o frics ac ar ben y sylfaen hon y mae'r adeilad o fframiau pren wedi'i godi. Mae cladin pren llorweddol wedi'i osod ar y tu allan ac mae bwrdd plastr wedi'i osod ar y tu mewn. O archwilio'r adeilad, nid oedd tystiolaeth bod y ffabrig wedi'i inswleiddio.

Mae'r cladin pren mewn cyflwr da yn gyffredinol er bod y rhannau isaf yn dangos rhywfaint o ddirywiad fel y byddech chi'n ei ddisgwyl yn achos adeilad o'r oedran hwn. Mae'r pren naturiol wedi crebachu a chracio mewn un neu ddau o fannau, yn benodol o amgylch y gosodiadau, a gallai hyn olygu y bydd dŵr yn mynd i mewn i'r strwythur.



Mae'r ffenestri wedi'u gwneud o bren ac maent yn cynnwys gwydr sengl. Mae rhai ffenestri wedi dirywio ac os na chânt eu hatgyweirio, byddant yn dirywio ymhellach ac ni fydd modd eu hagor na'u cau. Hefyd, os nad oes gwaith atgyweirio yn cael ei wneud, mae risg cynyddol y gallai'r ffenest wanhau, y gallai'r gwydr ddod allan ac y gallai dŵr fynd i mewn i'r strwythur.



Ymddengys bod cladin wedi'i osod ar y to nifer o flynyddoedd yn ôl ac mai to ar oleddf neu do gwastad o ffelt oedd yno'n wreiddiol.  Mae'r to â chladin mewn cyflwr da. Serch hynny, ymddengys nad yw'r sefyllfa gystal o ran y bondo gan fod ymyl gwreiddiol y to ffelt wedi pydru a bod y cafnau yn gymharol isel a allai arwain at risg sylweddol o ddirywiad pellach.



O ran y tu mewn, un ystafell sydd i'r adeilad, ac mae dau wresogydd ffan trydan (un ymhob pen) wedi'u gosod ar uchder. Mae'r drws allanol yn mynd â chi'n uniongyrchol i'r ystafell, felly mae llawer o wres yn cael ei golli yn y gaeaf.

Ymddengys bod y waliau mewnol mewn cyflwr da, er bod y silffoedd a'r eitemau eraill a adawyd ar ôl wedi amharu ar yr archwiliad llawn. Mae carped ar ffurf teils i'w weld ar y llawr ac ar ôl tynnu'r carped i ffwrdd mewn rhai mannau, gwelwyd crac a oedd yn fwy na 10mm o led. Nid yw'n debygol bod y llawr wedi'i atgyfnerthu. Mae'r ddogfen *BRE Digest 251* yn nodi bod unrhyw graciau sy'n fwy na 5mm yn ddiffygion strwythurol sydd angen ymyrraeth.



**Casgliad**
Gan fod yr adeilad wedi dyddio, bod y trefniadau gwresogi'n wael ac nad oes fawr ddim inswleiddio, nid yw pethau'n argoeli'n dda i'r adeilad oni bai bod yna fuddsoddiad sylweddol.

Mae'r ffaith bod yr adeilad ar oleddf yn golygu bod y mynediad i'r cyhoedd yn anoddach nag y dylai fod a byddai angen sicrhau bod y llwybr yn cydymffurfio â'r safonau presennol.

Nid oes dŵr ar y safle sy'n golygu nad ydyw'n addas fel man cyfarfod i'r cyhoedd.

Bydd angen gwneud atgyweiriadau sylweddol i fynd i'r afael â'r crac yn y llawr concrid a chredaf na fyddai unrhyw fuddsoddiad yn hyfyw oni bai yr ystyrir dymchwel yr adeilad a dechrau o'r newydd.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Diweddariad blynyddol Neuadd Goffa Ceinewydd 2022-2023** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Derbyn y diweddariad blynyddol** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

### 1. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.1 Fel y gŵyr yr Aelodau efallai, cafodd y Neuadd ei rhoi ar brydles gan y Cyngor, sef Ymddiriedolwr yr Elusen, i 'Neuadd Goffa Ceinewydd', sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol cofrestredig, a hynny am 99 mlynedd oddi ar 10 Chwefror 2020.

1.2 O dan gymal 26.6 o'r brydles mae'n rhaid i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol roi crynodeb blynyddol i'r ymddiriedolwr ar y 10fed o Chwefror bob blwyddyn yn nodi'r defnydd a wnaed o'r eiddo yn ystod y 12 mis blaenorol. Pwrpas y rhwymedigaeth hon yw bod yr ymddiriedolwr yn gallu gweld bod y Neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol a dibenion eraill o fewn amcanion ymddiriedolaeth y Cyngor, sef ei '*defnyddio fel neuadd bentref i drigolion Ceinewydd a'r gymdogaeth heb wahaniaethu yn ôl barn wleidyddol, grefyddol neu farn arall, gan gynnwys ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd, darlithoedd a dosbarthiadau ac ar gyfer mathau eraill o hamdden a difyrrwch, gyda'r nod o wella amodau byw'r trigolion dywededig'.*

1.3 Yn dilyn cais gan Swyddogion, mae'r Sefydliad Corfforedig Elusennol bellach wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer 2022-2023 a gyflwynir yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Nodi'r diweddariad oddi wrth y tenant ar gyfer y cyfnod 10 Chwefror 2022 – 9 Chwefror 2023.** |
| **Y rhesymau dros y penderfyniad:** | **I gydnabod bod y tenant yn cydymffurfio â chymal 26.6 o'r brydles dyddiedig 10 Chwefror 2020** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 – Diweddariad gan Neuadd Goffa Ceinewydd** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Louise Harries – Cyfreithiwr** |

**Dyddiad: 31/05/2023**

**ATODIAD 1 – DIWEDDARIAD GAN NEUADD GOFFA CEINEWYDD**

Adroddiad Blynyddol ar gyfer Neuadd Goffa Ceinewydd Ionawr 2022 – Rhagfyr 2022,

Crynodeb o'r defnydd a wnaed o Neuadd Goffa Ceinewydd yn 2022.

Ffurfiwyd yr elusen ym mis Medi 2018 pan gafodd gweithgarwch, asedau a rhwymedigaethau elusen flaenorol y Neuadd Goffa eu trosglwyddo ac y rhoddwyd prydles newydd gan Gyngor Sir Ceredigion i bwyllgor newydd ad-drefnu a darparu gwasanaethau i'r trigolion lleol.

Caewyd y Neuadd Goffa ar gyfer gwaith adnewyddu llawn yn dilyn grant gan Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr 2020. Dilynwyd hyn gan Gyfnod Clo cenedlaethol Covid-19 ym mis Mawrth 2020, a ymestynnodd i ddechrau 2022.

Mae'r Neuadd bellach yn gwbl hygyrch i fyny'r grisiau i'r brif Neuadd ac i lawr y grisiau i'r clwb snwcer a'r ystafelloedd cyfarfod. Mae ramp mynediad a rheiliau diogelwch, mannau parcio i bobl anabl, teledu cylch cyfyng, toiledau cwbl hygyrch a mannau newid cewynnau i gyd bellach wedi'u rhoi yn eu lle er budd pob grŵp oedran. Mae drws tân newydd wedi ei osod i gael mynediad i risiau'r allanfa frys, mae Wi-fi ar gael drwy'r Neuadd, a chawsom grant gan raglen Cynnal y Cardi CSC ar gyfer sgrin Hybrid 72" i alluogi cyfarfodydd, hyfforddiant a digwyddiadau hybrid.

Erbyn 2022, roedd cyfarfodydd, digwyddiadau, a gweithgareddau chwaraeon wedi ailddechrau'n raddol.

Agorwyd Llyfrgell newydd Ceinewydd, sydd bellach yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr, yn Ystafell 4 yn y Neuadd ym mis Hydref 2021 gan gynnig gwasanaeth clicio a chasglu i ddechrau. Erbyn dechrau 2022, roedd wedi agor yn llawn.

Ailddechreuodd y Farchnad Gymunedol bob dydd Gwener ym mis Ebrill 2022, ac yn fuan roedd nifer o fyrddau wedi'u harchebu, gyda byrddau yn cynnig crefftau lleol, bric a brac, cynnyrch, jamiau, wyau, cacennau a bwydydd sawrus, ynghyd â chaffi sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr.

Mae Dyfodol Gwledig Cymru – Hafren Gwy a Cwmpas – Busnes Cymdeithasol Cymru wedi parhau i helpu a chynghori'r Ymddiriedolwyr drwy gydol 2022 ac maent ar hyn o bryd yn helpu'r Ymddiriedolwyr i wneud cais am arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cydlynydd Hwb llawn amser i gefnogi gwaith yr Ymddiriedolwyr a'r Gwirfoddolwyr. Mae pob Ymddiriedolwr bellach wedi mynychu sesiynau hyfforddi i Ymddiriedolwyr.

Ym mis Awst 2022, cyflwynwyd prosiect derbyn dillad a gwisg ysgol ail-law, sef '*The Clothes Rail Project'*. Roedd yr ymateb yn yr ardal leol yn wych. Mae hyn wedi arbed nifer fawr o ddillad rhag cael eu hanfon i safle tirlenwi ac wedi diwallu angen amlwg am ddillad rhad. Roedd hyn yn arbennig o lwyddiannus yn ystod y tywydd oer gwaethaf ers blynyddoedd lawer ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2022, roeddem yn gallu darparu dillad gaeaf am ddim i unrhyw un oedd eu hangen.

Ym mis Hydref 2022 ar ddechrau'r 'Argyfwng Costau Byw', roedd angen am 'Fan Cynnes'. Gyda chymorth grant gan CAVO roeddem yn gallu darparu amgylchedd cyfeillgar a chynnes a oedd yn cael ei redeg yn wythnosol gan wirfoddolwyr gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau crefft, Wi-fi, diodydd poeth a byrbrydau. O ganlyniad i'n digwyddiadau codi arian a'r ffaith fod y neuadd yn cael ei defnyddio fwy ar gyfer chwaraeon, roedd angen cyfleusterau storio ychwanegol ac rydym bellach wedi prynu uned storio i gadw'r rhoddion a'r offer ychwanegol.

Roedd y digwyddiadau a'r gweithgareddau wythnosol a misol yn y Neuadd yn 2022 yn cynnwys caffi a marchnad wythnosol, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, Ioga, Clonc – sgwrs Gymraeg, Salsa, tennis bwrdd, badminton, Qingong, ac amrywiaeth o grwpiau crefftau a lles. Hefyd *Seaside Sisters* Sefydliad y Merched, Clwb Camera, Côr Cei, Clwb Snwcer a'r Lleng Brydeinig.

Mae defnyddwyr ychwanegol y Neuadd yn cynnwys y Cyngor Tref, Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor, Gwasanaethau Trallwyso Gwaed, Clwb Hwylio Ceinewydd, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), Ysgol Gynradd Ceinewydd, Cybiau ac Afancod Cymdeithas y Sgowtiaid, ac yn bwysig iawn, y grŵp codi arian lleol, '*Working 4 New Quay – W4NQ'*, sydd wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y Neuadd ar gyfer pob grŵp oedran trwy gydol y flwyddyn.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys Cydlynydd Hwb llawn amser am 3 blynedd – yn amodol ar gais llwyddiannus am arian gan y Loteri, clwb newydd i bobl ifanc mewn partneriaeth â Chanolfan yr Urdd, grŵp bowlio dan do, gwasanaeth benthyg offer a theganau babanod, grŵp mam a phlant bach, Clwb Cinio a bws mini cymunedol mewn partneriaeth â Dolen Teifi.

Mae'r Neuadd hefyd yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau hyfforddi, cyfarfodydd, arddangosfeydd, digwyddiadau cerddoriaeth, partïon teulu a dathliadau.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn hanfodol i redeg y Neuadd a'r Llyfrgell, fodd bynnag, mae'r holl wirfoddolwyr gwych yn bobl brysur a byddem wrth ein bodd yn cael mwy o gymorth, rhowch wybod i ni os ydych yn gallu sbario ychydig oriau yn achlysurol i helpu.

Hoffem ddiolch i'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr, CAVO, Grŵp Dyfodol Gwledig Hafren Gwy, *Working 4 New Quay*, *The Seahorse*, a phawb sydd wedi cyfrannu at ein digwyddiadau codi arian.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol